

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â John H. Williams (Llanefydd), a gweddi y teulu, yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Glenys. Cyflwynwn ef i ofal yr Arglwydd gan ddeisyf eto Ei nodded iddo.
- Cofiwn yn ein gweddiâu hefyd am Elwyn Bailey (Llansannan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos, a Trefor Jones (Nantglyn) sydd yno ers rhai dyddiau bellach. Mae Morfudd Williams (Henllan) wedi symud i'r Inffirmari ac mae Elizabeth Jones (Groes) yn parhau i gael gofal yno hefyd. Cofiwn hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, ac Ifan Evans (Saron) sydd wedi torri ei goes. Cyflwynwn bob un ohonynt, ac eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn, i ofal tyner ein Duw gan hyderu y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Llongyfarchiadau i Lowri Davies (Cefn Meiriadog) â Roger Jones, Tŷ Celyn, Llanfwrog ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Eglwysi Bro Aled yn cefnogi gwaith ym Mizoram



Aneurin ac Eilir Owen Griffiths yn cyflwyno rhodd o £770 tuag at y gwaith yn 'Grace Home', Mizoram – arian a gasglwyd trwy amrywiol weithgarwch ym Mro Aled yn 2013. (Mwy o'r hanes ar y dudalen flaen.)

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Darllenid Wythnos Nesaf

2 Corinthiaid 1: 1-7 (BCND tud.196 / BCN: tud.179)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26^{ain} Ionawr 2014

Darllenid y Dydd

Deuteronomium 6:4-9

(BCND tud.168 / BCN: tud.153)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Diolch i bawb am eu croeso adre! Cefais amser bendithiol iawn eto ym Mizoram a diolch i Dduw am y cyfle i fynd yno i gadw'r cysylltiadau'n fyw. Mae gan y Mizo feddwl mawr ohonom ni'r Cymry a dwn i ddim sawl gwaith y clywais i nhw'n diolch am yr Efengyl ac am y Cymry a ddaeth â'r Efengyl iddynt dros ganrif yn ôl. Rydw i'n teimlo'n hollol annigonol pob tro – nid oherwydd fod gen i gywilydd o Gymru heddiw, ond oherwydd fy mod yn sylweddoli gymaint sydd eto i'w wneud yma a chymaint a gollwyd. Ar yr un pryd, fel mae Paul yn ei ddweud am yr Effesiaid, rydw i'n llawenhaus yng ngwaith Duw yn eich calonnau chi ac yn gwybod mai trwy'r un Ysbryd, a thrwy yr un Arglwydd y mae gennym ni ffordd at Dduw a'n bod yn rhan o'r un teulu – teulu Duw. (Effesiaid 2:19)

A theulu mawr ydi o hefyd! Roedd 2,000 mewn un Ysgol Sul yno! Ac mewn oedfa arall roedd 3,000, a 167 o genhadon yn cael eu codi a'u gyrru allan i wahanol feysydd cenhadol ar draws Mizoram, India a'r byd. Dyna beth oedd cau y cylch yn gyfan i mi o gofio fod fy rhieni wedi eu hanfon yno a rwan eu bod nhw yn anfon eu pobl eu hunain yn enw Crist. Roedd hwn yn gyfarfod ysgytwol.

Cefais y fraint o gael cwmni Eilir Owen Griffiths sy'n adnabyddus fel arweinydd corau CF1, y Drindod a Gwaelod y Garth ac sydd yn Gyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Llangollen ac yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod. Dyn trefnus! A phrysur! Ond ymatebodd i'r cais i fynd i ddysgu'r côr-feistri yno a chafodd groeso twymgalon a pharch mawr gan bawb. Cafodd gyfleon rhyfeddol i ddysgu'r sgiliau perthnasol – a chefais i wrando arno a dysgu llawer ganddo hefyd. Gweithiodd yn ddwys hefo Côr y Synod a'u harweinydd a bydd y Côr yn dod draw ym mis Gorffennaf i Llangollen ac yma i'r Fro ar y 13eg o'r mis. Dysgodd "Tydi a roddaist" iddynt o 'scratch' mewn hanner diwrnod! Roedd yr 'Amen' olaf yn wefreiddiol. Canu i'r Arglwydd yw bwriad y Côr, ac fe fydd eu presenoldeb yng Nghymru yn fendith sicr yn llaw Duw.

Roeddwn i wedi cael gwahoddiad gan y Brifysgol yno i ddarlithio mewn Cynhadledd deuddydd a chefais gyfle i gyfarfod llawer o'm cyfeillion sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl a'r camddefnydd o alcohol a chyffuriau. Fe welwch o'r llun rai ohonynt sy'n gweithio yn 'Grace Home' – yr Uned a grewyd yn Ysbyty Durtlang gan roddion o Gymru dros y blynyddoedd. Mae Dr Sanga yno, a chyfeillion Gwawr Davies, Cefn Meiriadog a Catrin Pritchard o Ynys Môn fu draw ym Mizoram yn ystod yr haf llynedd. Diolchwyl am y rhodd o'r Fro ac fe gaf gyfle yn yr oedfa heno i sôn mwy – ac i ddangos mwy o'r lluniau!! Diolch i Dduw am ei gariad tuag at yr anghenus ac am gael bod yn rhan o'i deyrnas yn y byd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Gwen-Sul • **Aduniad Souled Out (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Yn yr un modd, bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 7.00, a bydd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys yn dilyn am 8.00.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mercher Cofiwch am y baned a sgwrs hefo Aneurin am 8.00 yng Nghanolfan Gymunedol Tanyfron. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

I ddod

- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 7fed–9fed. Bydd yr Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 i bob plentyn fydd yn mynd yno ac mae'n bosib y bydd yr Henaduriaeth yn medru cyfrannu ychydig hefyd i leihau'r gost. Cysylltwch â Rhodri i gael mwy o fanylion.
- **ARFOGI 14** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala Chwefror 14eg–16eg i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ewch i'r wefan www.souledoutcymru.net.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth 2il.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am “Ffynhonnau”.
- **LLANW** – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain–25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.llanw.org.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.